Cronfa Fudd Gymunedol

Os byddwn ni'n llwyddiannus yn ein cais cynllunio, mae RWE npower renewables yn bwriadu cynnig pecyn buddion sydd wedi'i lunio i gwrdd ag anghenion y gymuned leol.

Mae gan RWE npower renewables hanes hir o gynnig buddion i'r cymunedau lle mae'n gweithio, ac edrychwn ni ymlaen i ymchwilio i flaenoriaethau'r trigolion a'r cymunedau sy'n agos i Goedwig Clocaenog.

Hoffem gael gwybod beth yn eich golwg chi yw'r blaenoriaethau lleol hyn.

1. Beth yw'r peth pwysicaf i chi am y lle rydych chi'n byw?
2. Pa sefydliadau yn eich barn chi sy'n gwneud gwahaniaeth positif i'ch cymuned?
3. Pe baech chi'n gallu gwneud un peth i wella'ch cymuned, beth fyddai?

Hoffem hefyd glywed gennych chi os oes gennych unrhyw syniadau am brosiectau, gweithgareddau, neu sefydliadau y byddai pecyn budd cymunedol yng Nghoedwig Clocaenog yn gallu ei gefnogi.

Am ragor o wybodaeth, neu i gynnig eich syniadau, cysylltwch â'n Swyddog Buddsoddiad Cymunedol, Katy Woodington, ar 01492 660811 neu katy.woodington@rwe.com.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae RWE npower renewables yn ymgymryd â'r ardangosfeydd cyhoeddus hyn i geisio deall barnau a phroblemau y bobl leol a'r cymunedau, cyn cwblhau ein cynigiadau.

Rydym ni wrthi'n casglu ein gwybodaeth i Ddatganiad Amgylcheddol a fydd yn cael ei roi fel rhan o'n cam nesaf, sef, cais cynllunio i Adran Ynni a Newid Hinsawdd..

Bwriadwn, yn rheolaidd, gyflwyno cynnydd y cynigiad hwn yn lleol drwy amrywiol ffyrdd, gan gynnwys ein gwefan a'n cylchlythyr, Wind Power News.

Am wybodaeth ychwanegol neu i roi eich sylwadau, cysylltwch â:

Martin Cole
Prosiect Fferm Wynt Coedwig Clocaenog/ Clocaenog Forest Wind Farm Project, RWE npower renewables, Unit 22, Technium Sustainable Technologies, Central Avenue, Baglan Energy Park Port Talbot SA12 7AX

Teleffon: 01639 816 180
Ebostl: clocaenog@npower-renewables.com

www.npower-renewables.com/clocaenogforest

Printiwyd y llyfryn yma ar bapur sydd wedi ei wneud o fwydion sydd wedi eu hardystio gan yr FSC ac fe'i printiwyd hefyd yn defnyddio inc llysieuol.

Troednodiadau:

[1] Mae'r rhagweliadau hyn yn arbennig i safle arfaethedig RWE npower renewables Fferm Wynt Coedwig Clocaenog, fel yr amlinellir yn y daflen hon.

[2] Mae'r ynni y rhagwelir fydd yn cael ei gynhyrchu gan y cynigiad wedi'i seilio ar gyflymderau gwynt sydd wedi'u monitro'n lleol, ac yn cael eu cyfatebu i orsaf Swyddfa'r Met sy'n darparu data hir dymor. Galluoga hyn i gyfrif gael ei wneud i amcangyfrif cynhyrchiad ynni blynyddol. y safle wedi'i seilio ar 32 tyrbin yr un gyda maint gwerth 2.5MW. Fe all y maint ynni rhagweledig, ac o hynny ffigyrau cyfatebol y cartref, newid fel y bydd rhagor o ddata yn cael ei gasglu. Seilir cyflenwad y tai cyfatebol ar ddefnydd blynyddol y trydan i bob cartref ar 4700kWh sydd wedi'i gasglu o gyfanswm o ddefnydd blynyddol trydan y D.U. o 117.589 awr-terawat (TWh) (The Digest of UK Energy Statistics 2005) 25.2 miliwn o gartrefi'r D.U. (Mid-year Household Estimates wedi'i argraffu yn 2004 gan Swyddfa Ystadegau Gwladol). Does dim bwriad i luniau y ffermydd gwynt sy'n weithredol yn barod ac sydd yn y cylchlythyr yma gynrychioli golwg, maint na graddfa cais Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. (Mae'r delweddau yn dangos Fferm Wynt Ffynnon Oer – 2 dyrbin megawat, tŵr 58 medr, 70 medr o rotor tryfesur.)

RWE npower renewables

Cynigiad Fferm Wynt Coedwig Clocaenog

Arddangosfeydd Cyhoeddus,
Hydref 2009
Taflen Crynodeb

An RWE Innogy company

Diolch ichi am ddangos diddordeb yng nghynigiad Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. Mae RWE npower renewables yn awyddus i gynnal dialog gyda'r cymunedau lleol oddi mewn ac o gwmpas safle'r fferm wynt arfaethedig. Mae'r daflen hon yn grynodeb. o'r arddangosfeydd ymgynghorol cymunedol a gynhaliwyd yn Hydref 2009. Os hoffech gael unrhyw wybodaeth ychwanegol, cysylltwch â ni drwy'r manylion cyswllt ar y dudalen gefn, neu ewch at ein gwefan brosiect: **www.npower-renewables.com/clocaenogforest**

Martin Cole

Martin Cole
Rheolwr y Prosiect

Cefndir

Ym Mawrth 2009, dewiswyd tîm datblygu Cymreig RWE npower renewables fel y bidiwr dewisiedig â'r potensial i ddatblygu fferm wynt ar dir biau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac a reolir gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yng Nghoedwig Clocaenog. Mae'r safle yma oddi mewn i ardal a ystyrir yn addas i ffermydd gwynt yn Nodyn 8 Cyngor Technegol arweiniad cynllunio Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Manylion y Prosiect

- maint cyfan y fferm wynt wedi'i roi i mewn: rhwng 64MW a 96MW y tyrbin [1]
- uchder y pen – hyd at 145m
- maint pob tyrbin wedi'i roi i mewn: rhwng 2MW a 3MW y tyrbin [1]
- yn gallu darparu ar gyfer anghenion ynni hyd at 42,1000 o dai [2]
- yr ardal o fewn Ffin Ardal Datblygiad Potensial – tua 1,463 hectar
- holl arwynebedd Coedwig Clocaenog – 5,000 hectar.

Y Datganiad Amgylcheddol

Wedi ymgynghori â sawl ymgynghorwr statudol a di-statudol, bydd Datganiad Amgylcheddol Fferm Wynt Coedwig Clocaenog yn trafod y pynciau a restrir isod. Mae pob pwnc wedi'i asesu gan arbenigwr, a bydd y Datganiad Amgylcheddol yn gosod y statws gyfredol, a sut ac i ba raddau yr effeithir arno drwy adeiladu a gweithredu fferm wynt, a sut y gellid lliniaru unrhyw effeithiau.

- tirwedd a golwg
- ecoleg a chadwraeth natur
- cynllunio
- etifeddiaeth ddiwylliadol ac archaeoleg
- defnydd tir a choedwigaeth
- mynediad cyhoeddus
- geoleg ac hydroleg
- sŵn a Dirgrynu
- traffig a thrafnidiaeth
- isadeiledd, telegyfathrebu ac Hedfan
- sosio-economeg.

Asesiad Effaith Amgylcheddol

Ymgymerwyd ag arolygon amgylcheddol manwl dros y flwyddyn a hanner ddiwethaf i sicrhau y dylunir y fferm wynt yn sensitif, ac y gwneir yr asesiad effaith gyda dealltwriaeth gyfun o'r safle. Bydd hyn yn amharu ar fywyd gwyllt ac ar yr amgylchedd gyn lleied â phosib.

Mae arolwg llawn o'r data sydd ar gael am y safle, hefyd wedi'i wneud. Amlinellir unrhyw effeithiau ecolegol, mesurau lleddfu arfaethedig, gwelliannau bioamrywiaeth arfaethedig yn fanwl yn y Datganiad Amgylcheddol a fydd yn cael ei gynnwys fel rhan o'r cais cynllunio. Bydd hon yn ddogfen gyhoeddus, fydd i'w gweld mewn amryw leoedd ledled Siroedd Conwy a Dinbych.

Y Broses Gynllunio a Dylunio

Mae dyluniad a chynllun fferm wynt yn esblygu fel y mae'r prosiect, yr asesiadau technegol, a'r ymgynghoriadau yn mynd yn eu blaen. Penderfynir ar leoliad terfynol y tyrbini gan lawer o ffactorau sy'n cynnwys adnodd gwynt, effaith weledol, effaith sŵn, agosatrwydd i ddŵr arwyneb, ac agosatrwydd i ardaloedd o ddiddordeb ecolegol. Nid yw rhai o'r ffactorau hyn yn cael eu hadnabod nes i'r asesiadau technegol ddechrau neu, mewn rhai achosion, wedi'u cwblhau. Mae hyn yn golygu bod y cynllun a welwch chi isod, fel a ddangosir yn yr arddangosfa, ddim o angenrheidrwydd yn gynllun terfynol a roddir gyda'r cais am ganiatad cynllunio.



Wedi'i ailgynhyrchu gyda chaniatad Yr Arolwg Ordnans ar ran HMSO. © Hawlfraint y Goron a hawlfraint basdata (2004).Cedwir pob hawlfraint. Rhif trwydded yr Arolwg Ordnans 100018338 a 100017907.